OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1806 (Cy.174)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/116 (Cy.14)) fel y'u diwygiwyd eisoes gan O.S. 2006/617 (Cy.69), O.S. 2006/2928 (Cy.263), O.S. 2006/3256 (Cy.296) ac O.S. 2007/3171 (Cy.277) ("y Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid").

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/4/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 94/39/EC ynghylch bwydydd anifeiliaid sydd wedi'u bwriadu i leihau'r risg o dwymyn llaeth (OJ Rhif L6, 10.1.2008, t.4).

**3**. Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r tabl yn Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir ac a fwriedir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio) i'r Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid, drwy roi yn lle'r eitemau presennol, sy'n ymwneud â lleihau'r risg o dwymyn llaeth, yr eitemau diwygiedig a gynhwysir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2008/4/EC. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn caniatáu, a hynny'n ddarostyngedig i ofynion labelu penodedig, i ddau fath ychwanegol o fwyd deietegol i anifeiliaid gael eu marchnata i leihau'r risg o dwymyn llaeth mewn buchod godro.

**4**. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro gwall yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (rheoliad 2(2)).

**5**. Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1806 (W.174)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations further amend the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/116 (W.14)) as already amended by S.I. 2006/617 (W.69), S.I. 2006/2928 (W.263), S.I. 2006/3256 (W.296) and S.I. 2007/3171 (W.277) ("the Feeding Stuffs Regulations").

**2**. These Regulations provide for the implementation of Commission Directive 2008/4/EC amending Directive 94/39/EC as regards feeding stuffs intended for the reduction of the risk of milk fever (OJ No. L6, 10.1.2008, p.4).

**3**. The Regulations amend the table in Schedule 7 (permitted feeding stuffs intended for particular nutritional purposes and provisions relating to their use) to the Feeding Stuffs Regulations, by replacing the existing entries relating to the reduction of the risk of milk fever with the revised entries contained in Commission Directive 2008/4/EC. This Directive permits, subject to specified labelling requirements, two additional types of dietetic feed to be marketed for the reduction of milk fever in dairy cows.

**4**. These Regulations also correct an error in the Welsh language text of the Feeding Stuffs Regulations (regulation 2(2)).

**5**. A full regulatory impact assessment has not been prepared for these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1806 (Cy.174)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Gorffennaf 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Gorffennaf 2008* |
| *Yn dod i rym* | *30 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 68(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**).

Cafwyd ymgynghori yn ystod cyfnod paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

**Enwi a Chychwyn**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 30 Gorffennaf 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations"; Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S.1978/272), Atodlen 5, paragraff 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a throsglwyddwyd hwy wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 6.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1806 (W.174)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 July 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *9 July 2008* |
| *Coming into force* | *30 July 2008* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 66(1), 68(1), 74A and 84 of the Agriculture Act 1970(**1**).

There has been consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(**2**) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety.

**Title and Commencement**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2008 and they come into force on 30 July 2008.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1970 c.40. Section 66(1) contains definitions of the expressions "the Ministers", "prescribed" and "regulations". The definition of "the Ministers" was amended by the Transfer of Functions (Wales) (No. 1) Order 1978 (S.I. 1978/272), Schedule 5, paragraph 1. Functions of "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and thereafter transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). Section 74A was inserted by the European Communities Act 1972 (c. 68), Schedule 4, paragraph 6.

(**2**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

**Diwygio Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006**

**2**.—(1) Mae Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**1**) wedi'u diwygio'n unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn nheitl testun Cymraeg Atodlen 7 mewnosoder "ac a fwriedir" ar ôl "a ganiateir".

(3) Ym Mhennod A o Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir ac a fwriedir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio), yn lle'r eitemau ynghylch lleihau'r risg o dwymyn llaeth, rhodder yr eitemau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Amendment of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006**

**2**—(1) The Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In the title of the Welsh text of Schedule 7, insert "ac a fwriedir" after "a ganiateir".

(3) In Chapter A of Schedule 7 (permitted feeding stuffs intended for particular nutritional purposes and provisions relating to their use), for the entries relating to reduction of the risk of milk fever, substitute the entries set out in the Schedule to these Regulations.

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Gorffennaf 2008

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

7 July 2008

(**1**) O.S. 2006/116 (Cy. 14), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/617 (Cy. 69), O.S. 2006/2928 (Cy. 263), O.S. 2006/3256 (Cy. 296) ac O.S. 2007/3171 (Cy. 277).

(**1**) S.I. 2006/116 (W.14), as amended by S.I. 2006/617 (W.69), S.I. 2006/2928 (W.263), S.I. 2006/3256 (W.296) and S.I. 2007/3171 (W.277).

YR ATODLEN

SCHEDULE

Rheoliad 2(2) Regulation 2(2)

Yr eitemau sydd i'w rhoi yn lle'r eitemau ynghylch lleihau'r risg o dwymyn llaeth yn Atodlen 7 i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

Entries to be substituted for the entries relating to the reduction of the risk of milk fever in Schedule 7 to the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006

| Particular nutritional purpose | Essential nutritional characteristics | Species or category of animal | Labelling declarations | Recommended length of time for use | Other provisions |
|---|---|---|---|---|---|
| Reduction of the risk of milk fever | — Low level of calcium | Dairy cows | — Calcium<br>— Phosphorus<br>— Magnesium | 1 to 4 weeks before calving | Indicate in the instructions for use:<br>"Stop feeding after calving" |
| | and/or | | | | |
| | — Low cations/anions ratio | | — Calcium<br>— Phosphorus<br>— Sodium<br>— Potassium<br>— Chlorides<br>— Sulphur | 1 to 4 weeks before calving | Indicate in the instructions for use:<br>"Stop feeding after calving" |
| | or | | | | |
| | — High level of zeolite (synthetic sodium aluminium silicate) | | Content of synthetic sodium aluminium silicate | The 2 weeks before calving | Indicate in the instructions for use:<br>— "The amount of feed shall be restricted to ensure that a daily intake of 500 g sodium aluminium silicate per animal is not exceeded"<br>— "Stop feeding after calving" |
| | or | | | | |
| | — High level of calcium in the form of highly available calcium salts | | Total calcium content, sources and respective quantity of calcium | From first signs of parturition to 2 days after parturition | Indicate on the package, container or label:<br>— The instructions for use, i.e. the number of applications and the time before and after calving;<br>— The text "It is recommended that a nutritional expert's opinion be sought before use" |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 Rhif 1806 (Cy.174)

# 2008 No. 1806 (W.174)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008

The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W348/07/08 ON